**Dyddiad: 26 Chwefror 2003**
**Amser: 9.00 - 12.30**
**Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru: papur briffio

### 1 Llyfrgell Genedlaethol Cymru: y ffeithiau moel

*Cenhadaeth* y Llyfrgell Genedlaethol, sy'n deillio o'i dogfen sylfaenol, y Siarter Brenhinol, yw 'casglu, cadw a rhoi mynediad i wybodaeth gofnodedig, ar bob ffurf ddogfennol, gyda phwyslais arbennig ar gofnod deallusol Cymru, er budd pawb sy'n ymwneud ag ymchwil neu ddysgu, neu unrhyw anghenion gwybodaeth eraill.' Mae gan y Llyfrgell rôl *ddiwylliannol* amlwg, ond ar ben hynny mae'n bwysig fel y prif sefydliad *gwybodaeth* yng Nghymru, i raddau helaeth oherwydd ei bod yn llyfrgell 'adnau cyfreithiol' yn achos deunydd printiedig.

Niferus ac amrywiol yw *defnyddwyr* y Llyfrgell. Daw oddeutu 70,000 o bobl bob blwyddyn i'w hadeilad yn Aberystwyth, i astudio ac ymchwilio, i ymweld ag arddangosfeydd, i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, ac i fynychu cynadleddau, seminarau a digwyddiadau eraill. Mae'r adeilad ar agor i bob dinesydd, a gellir defnyddio gwasanaethau craidd y Llyfrgell yn rhad ac am ddim. O bell mae'r mwyafrif llethol o bobl yn cael eu profiad o'r Llyfrgell: trwy arddangosfeydd teithio, ond yn bennaf trwy'r rhyngrwyd: 200,000 o bobl bob blwyddyn sy'n ymweld â gwefan y Llyfrgell[1], i gael gwybodaeth, ac yn gynyddol i gael defnyddiau (trwy ddigido).

Mae gan y Llyfrgell pum *swyddogaeth graidd*: casglu; cadw; rhoi mynediad a gwybodaeth; rhoi cyhoeddusrwydd a dehongli; a chydweithio proffesiynol.

Hanfod y Llyfrgell yw'r *casgliadau*, sy'n anarferol o eang o ran yr ystod o gyfryngau a welir: llyfrau a deunydd printiedig arall; meicroffurfiau; llawysgrifau ac archifau; mapiau; lluniau a ffotograffau; recordiau sain a delweddau symudol; a deunydd electronig. (Mae adolygiad pwysig o'r polisi casglu ar droed ar hyn o bryd.)

Crewyd y Llyfrgell fel sefydliad Siartr Frenhinol yn 1907. Mae hefyd yn elusen gofrestredig. *Llywodraethir* gan Lys o Lywodraethwyr a Chyngor (gw. 3 isod). Fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fe'i goruchwylir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn gwahanol ddulliau: y Datganiad Rheolaeth a Memorandwm Ariannol; y Llythyr Gorchwyl blynyddol; cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol tair blynedd a'r Cynllun Gweithredu un flwyddyn; cyfarfodydd rheolaidd â'r Gweinidog, y Pwyllgor Pwnc a gweision sifil; ac adolygiadau ariannol gan y Cynulliad a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

[1] http://www.llgc.org.uk

Daw'r rhan fwyaf o *incwm* y Llyfrgell o'r Cynulliad (£9.3m yn 2002-03); ychwanegir symiau ychwanegol: o gronfeydd preifat – cynnych rhoddion a chymynroddion gan bobl â chanddynt ymrwymiad cryf tuag at y Llyfrgell (£1.5m), incwm o ffioedd a thaliadau, a grantiau gan sefydliadau eraill. Defnyddir y mwyafrif o'r *gwariant* i dalu'r 271 o staff (= 256 llawn amser); neilltuir arian arall at estyn y casgliadau, cynnal a chadw a datblygu cyfalafol, ac at bwrpasau eraill.

Ymhlith *staff* y Llyfrgell mae llyfrgellwyr, archifwyr, arbenigwyr mewn celf, cadwedigaethwyr, digidwyr ac arbenigwyr eraill. Yn sgil ad-drefnu strwythur y sefydliad yn 2002 crewyd tair prif Adran: Gwasanaethau Casgliadau, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gwasanaethau Corfforaethol.

Ers yr ymarfer ymgynghori pwysig yn 1999 ('Dewis y dyfodol'[2]) mae'r Llyfrgell wedi canolbwyntio yn ei *strategaeth ddatblygu* ar wella mynediad i'r adeilad, i'r casgliadau ac i'r gwasanaethau: ar drawsffurfio ei hun o'r hyn a welid yn aml yn adnodd pell neu elitaidd, i fod yn adnodd perthnasol, diddorol a chyffroes i lawer mwy o bobl, yng Nghymru a ledled y byd. Cysylltir yr uchelgais hwn, a wireddir yn bennaf trwy'r ganolfan newydd i ymwelwyr (menter y 'Llyfrgell Agored') a thrwy ddatblygu gwasanaethau electronig (menter y 'Llyfrgell Ddigidol'), â pholisïau'r Cynulliad ar gynhwysiad cymdeithasol, gwelliannau addysgol a datblygiadau TGCh.[3]

## 2 Tair gorchest

### *2.1 Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru*

Yn Ebrill 2001 sefydlwyd Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru (AGSSC). Canlyniad yr oedd o bartneriaeth rhwng y Llyfrgell Genedlaethol a Sgrîn: Asiantaeth Cyfryngau Cymru. Daethpwyd ynghyd ddau gasgliad a oedd ar wahân o'r blaen, Casgliad Sain a Delweddau Symudol y Llyfrgell, ac Archif Ffilm a Theledu Cymru (Sgrîn). Y Llyfrgell sy'n rheoli'r Archif ar ran y ddau sefydliad.

Aeth AGSSC o nerth i nerth yn ystod ei bywyd byr hyd yma. Mae ei gasgliad cyfoethog o ffilmiau, fideos, darllediadau teledu a radio, a recordiadau sain wedi elwa o ad-drefnu'r archifau. Rhoddwyd rhagor o adnoddau at eu cadw a'u catalogio. Datblygwyd gwefan[4]. Bu gwelliant aruthrol mewn cyhoeddusrwydd a marchnata, a chynnydd yn un o raglenni pwysicaf yr Archif – dod â ffilmiau o'r casgliad a'u dangos i gymunedau lleol trwy Gymru.

Agorwyd swyddfeydd newydd, pwynt ymholiadau, a chyfleusterau gwylio a gwrando yn Ionawr 2003, fel rhan o gymal 1 o'r ganolfan newydd i ymwelwyr. Cawsant groeso brwd. Yn y gwanwyn 2004 agorir yr awditoriwm newydd: yna, am y tro cyntaf, bydd yn bosibl inni ddangos ffilmiau a threfnu digwyddiadau eraill ar gyfer grwpiau yn y Llyfrgell.

---

[2] http://www.llgc.org.uk/adrodd/adrodd_c_papymg.pdf
[3] Am fwy o wybodaeth gweler Andrew Green, 'Digital library, open library: developments in the National Library of Wales', *Alexandria*, 14(3), 2002, t. 161-70.
[4] http://sgrinasain.llgc.org.uk/

## 2.2 Y ganolfan i ymwelwyr

Mae codi'r ganolfan newydd i ymwelwyr[5] bellach wedi cyrraedd hanner y ffordd. Erbyn yr amser y cwblheir yn Ionawr 2004 bydd y ganolfan wedi newid natur y Llyfrgell. Yn ogystal ag apelio at ymchwilwyr, myfyrwyr a defnyddwyr unigol eraill, byddwn yn medru denu llawer mwy o grwpiau ysgol, coleg a chymuned, dysgwyr gydol oes, twristiaid ac eraill sy'n ymddiddori yn etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

Daeth y gwaith adeiladu ar gymal 1 i ben yn Ionawr 2003. Mae bwyty newydd, siop, ardal groeso ac ystafelloedd dysgu ar agor: fel ardal AGSSC fe'u cafwyd yn llwyddiannus iawn. Mae rhai ardaloedd eraill eto i'w offeru: 'Ystafell Peniarth' (ar gyfer arddangosfeydd dros dro, ac i gynnwys 'jiwcbocsys' electronig a sgriniau plasma), a 'Byd y Llyfr', fydd yn dangos datblygiad y gair printiedig yng Nghymru: ei brif eitem fydd gwasg argraffu â llaw fawr, weithiol.

Ar ddechrau Ionawr dechreuwyd gwaith ar gymal 2. Ar ben yr awditoriwm a chanddo 100 o seddi, a ddefnyddir gan gyrff allanol a grwpiau cymunedol yn ogystal â chan y Llyfrgell, bydd ardal arbennig er mwyn arddangos defnyddiau sensitif o'r casgliadau.

## 2.3 Digido

Mae datblygu gwasanaethau digidol, yn arbennig dros y We, yr un mor bwysig â gwella mynediad corfforol. Un o'r dulliau mwyaf nerthol o ddarparu gwybodaeth o bell yw digido – trosi eitemau analog gwreiddiol i gopïau digidol sydd wedyn i'w gweld ar-lein: rhywbeth sydd o bosibl yn gwneud ymweliad ag Aberystwyth yn ddiangen. O fewn tair blynedd mae'r Llyfrgell wedi codi un o ganolfannau digido mwyaf blaenllaw yn y DU, a dodi ar ei gwefan[6] rychwant mawr ac amrywiol o ddeunydd wedi'i ddigido – llawysgrifau, llyfrau, ffotograffau, paentiadau ac eitemau eraill – o les i amrywiaeth mawr o bobl, gan gynnwys dysgwyr, ymchwilwyr a haneswyr teulu a lleol.

Roedd y Llyfrgell yn un o arweinwyr 'Casglu'r Tlysau'[7]. Ariennir y cynllun digido ddiwylliannol hwn gan y Gronfa Cyfleodd Newydd (2001-03), a'r Llyfrgell yn gartref iddo. Mae'n arloesol oherwydd ei raddfa (dros Gymru gyfan) a'r ffaith ei fod yn dod â bron pob un o'r archifau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd yng Nghymru ynghyd mewn menter gydweithredol unedig. Bwriedir parhau â chynnyrch ac amcanion 'Casglu'r Tlysau' o fewn y rhaglen newydd a ariennir gan y Cynulliad, 'Culturenet Cymru': bydd hwn hefyd yn cael ei leoli yn y Llyfrgell o Ebrill 2003 ymlaen.

Defnyddir gwefan y Llyfrgell fel y cyfrwng neu'r porth ar gyfer gwasanaethau ar-lein eraill, yn gynnwys gwasanaeth ymholiadau, catalogau a rhestrau o'r

---

[5] http://www.llgc.org.uk/dacy/dacy_c006.htm
[6] Gweler ardal y 'Drych Digidol' ar y wefan: http://www.llgc.org.uk/drych/index_c.htm
[7] http://www.gtj/org.uk

casgliadau, is-wefan ar gyfer ysgolion (sydd ar fin cael ei lansio), a'r cyfeiriadur o wefannau Cymreig, 'Cymru ar y We' (CAYW)[8].

## 3 Dau uchelgais (a mwy)

Mae'r Llyfrgell yn ymwybodol ei bod ond yn cychwyn ar y prosesau a ddechreuwyd bedair blynedd yn ôl yn sgil 'Dewis y Dyfodol'. Mae gennym gynlluniau ac uchelgeisiau i estyn yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, er mwyn ehangu strategaeth y Llyfrgell ac amcanion y Cynulliad ei hun.

### *3.1 Canolfan Hanes Teulu a Chymuned*

Gwyddom mai un o'r marchnadoedd mwyaf, a mwyaf gweithgar sydd gan y Llyfrgell, yng Nghymru a thramor, yw haneswyr teulu a haneswyr lleol. Lluniwyd eisoes gynlluniau bras i sefydlu Canolfan Hanes Teulu a Chymuned. Byddai hon yn bod ar ddwy ffurf: ardal yn adeilad y Llyfrgell, lle gallai darllenwyr ymchwilio, gyda chymorth staff profiadol, trwy ddefnyddio'r adnoddau anferthol, wedi (a heb) eu cyhoeddi, sydd ar gael. Byddai hefyd yn gronfa fawr o ddata archifol digidol, yn chwiliadwy ar-lein, fydd yn seiliedig ar gasgliadau'r Llyfrgell.

Mae astudiaeth dichonoldeb mewn golwg, mewn cydweithrediad a Bwrdd Croeso Cymru. Nid oes arian eto i roi'r Ganolfan ar fynd (unwaith iddi gael ei sefydlu, gellid cynhyrchu incwm i helpu ei chynnal a'i datblygu).

### *3.2 Cyhoeddiadau ac archifau electronig*

Ceir categori arall o ddeunydd digidol: 'yn enedigol ddigidol', ni fu erioed yn wreiddiol ar ffurf ddi-ddigidol. Gwelir twf mawr ynddo erbyn hyn. Cyhoeddir cyfnodolion (a llyfrau) electronig, cronfeydd data a gwefannau, yn aml heb gyhoeddiadau printiedig sy'n gyfateb iddynt, gan nifer helaeth o gyrff ac unigolion. Erbyn hyn mae 'archifau electronig' yn gyffredin. Mae angen arnom ddethol, derbyn, storio a rhoi mynediad i ddeunydd 'genedigol ddigidol' o'r mathau hyn, sy'n dod o Gymru neu, mewn sawl achos, o'r DU, os gall y Llyfrgell barhau i gynrychioli cynnyrch deallusol Cymru a thu hwnt.

Mae'r Llyfrgell wedi dechrau yn y maes hwn o archifo digidol trwy gael cyhoeddiadau electronig, archifo gwefannau a dyfeisio systemau i storio archifau digidol. Ar lefel y DU cyflwynwyd mesur aelod preifat i Dŷ'r Cyffredin yn ddiweddar, gyda chefnogaeth y Llywodraeth, sy'n anelu at estyn adnau cyfreithiol i gwmpasu deunydd cyhoeddedig di-brint (h.y. electronig yn bennaf): os daw'r mesur yn ddeddf bydd estyniad mawr yng nghyfrifoldeb y Llyfrgell.

### *3.3 A llawer mwy …*

Tu hwnt i'r ddau yma mae agenda fawr o fwriadau ac uchelgeisiau eraill sydd gennym (gweler y Cynllun Corfforaethol). Cynhwysir llawer ohonynt yn

---

[8] http://www.cymruarywe.org/

argymhellion yr Adolygiad Pum-mlynedd, sydd hefyd wedi ychwanegu at yr agenda. Ymhlith y cynlluniau fydd yn cael eu gwireddu yn ystod y cyfnod nesaf ydy:

- diwygio'r system o lywodraeth yn y Llyfrgell (y Llys a'r Cyngor)
- gwella proffil y Llyfrgell, a'r lefel o weithgareddau estyn allan
- llenwi bylchau yn ein cyllidebau, a chwilio am ffynonellau newydd o arian
- cyflwyno rhaglen dreigl newydd o adolygiadau 'gwella gwasanaethau' (gwerth gorau) o bob gweithgaredd
- paratoi at system gyfrifiadurol newydd, unedig ar gyfer rheoli casgliadau
- cyflawni amcanion Culturenet Cymru, Rhwydwaith Archifau Cymru (ANW), Newsplan, Cymru ar y We, a mentrau eraill y mae rhan allweddol i'r Llyfrgell ynddynt.

## 4 Tri chwestiwn

Er ei bod yn ymddangos fod y prif themâu o strategaeth y Llyfrgell yn y dyfodol yn weddol glir, erys cryn ansicrwydd a sialensau eto i'w wynebu. Gofynnir tri chwestiwn yma. Cwestiynau dilys a dwys ydynt i'r Llyfrgell: fe'u gosodir yma er ystyriaeth y Pwyllgor.

*1 Sut all y Llyfrgell wneud llawer mwy i agor ei hadnoddau i ddefnyddwyr, yng Nghymru a thu hwnt?*

Rydym wedi cymryd ein camau cyntaf tuag at ehangu mynediad, trwy godi'r ganolfan i ymwelwyr, datblygu gwasanaethau digidol, cynyddu'r nifer o arddangosfeydd ac yn y blaen.

Ond ceir rhwystrau difrifol – nawr ac yn y dyfodol – sy'n effeithio ar yr hyn y gallwn ei wneud. Er enghraifft, ni allwn fenthyca'r rhan fwyaf o'n defnyddiau printiedig (eitemau adnau cyfreithiol) o achos ein bod dan ddyletswydd i'w cadw. Mae'n annhebyg y bydd hi'n bosibl gweld deunydd 'genedigol ddigidol', a geir trwy adnau cyfreithiol estynedig, y tu allan i'r adeilad. Mae digido yn broses araf yn rhannol oherwydd ei bod yn anodd cael yr hawl (yn rhad o leiaf) i gopïo a dangos ar y wefan ddeunydd sydd mewn hawlfraint. Mae gennym ond un adeilad, yn Aberystwyth, ac felly nid oes 'ffenestr' ar y Llyfrgell mewn mannau eraill yng Nghymru. Ac yn olaf golyga cyfyngiadau ariannol nad ydym eto wedi cael hyd i ddulliau o gynyddu'n sylweddol weithgareddau fel digido, catalogio ôl-drosi a gwasanaethau addysgol i'r raddfa yr hoffwn ni – a'n defnyddwyr – ei chyrraedd.

Bydd rhaid wrth ddyfeisgarwch a dyfalbarhad er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn yn ystod y blynyddoedd i ddod.

*2 Sut orau all y Llyfrgell gynllunio cydweithio â chyrff eraill er lles y ddwy ochr?*

Wrth reddf mae'r Llyfrgell yn gyd-weithiwr naturiol. 'Cydweithio proffesiynol' yw'r pumed o'n swyddogaethau craidd, a bu cysylltiadau cryfion gyda

llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd a sefydliadau tebyg, yng Nghymru a thu hwnt.

Bydd sefydlu CyMAL: Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd Cymru, yn Ebrill 2004, yn drobwynt yn cydlynu polisi yn y meysydd hyn. Edrycha'r Llyfrgell ymlaen at weithio'n agos â CyMAL (bydd o gymorth mai yn Aberystwyth bydd CyMAL). Mae'n debyg y bydd ein rôl fel arweinydd yn cael ei addasu ar ôl dyfodiad CyMAL, ond nid yw'n amlwg ym mha ffordd eto.

Bydd eisiau adolygu'r dulliau o gydweithredu â'n chwaer-sefydliad, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar crewyd cysylltiadau y tu hwnt i'n cylchoedd proffesiynol amlycaf. Enghraifft dda yw Cymru'n Creu (y mae Culturenet Cymru wedi tyfu ohono). Fodd bynnag, erys llawer o waith i'w wneud er mwyn creu cysylltiadau â chyrff perthnasol, megis Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a Bwrdd Croeso Cymru.

Cwestiynau eraill ydy: sut mae blaenoriaethu rhwng cyd-weithwyr posibl, pryd bydd adnoddau'n brin? A beth fydd y meysydd lle bydd cydweithio yn debyg o fod yn ffrwythlon?

*3 Sut all y Llyfrgell ariannu a chynnal y rôl estynedig a gynigir gan ei strategaeth?*

Mae'n amlwg y bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn ariannu datblygiadau newydd. At hynny mae ffynonellau presennol dan bwysau. Mae lefel y cymhorthdal o'r Cynulliad Cenedlaethol dros y tair blynedd nesaf yn ddisymud neu'n gostwng o ran ei werth gwir. Gwelwyd gostyngiad yn arian preifat y Llyfrgell oherwydd gwario ar y ganolfan i ymwelwyr a'r cwymp yn y farchnad stoc. Bydd pwysau ar gronfa bensiwn y Llyfrgell yn codi yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Llyfrgell yn gwneud ei gorau i ddod i afael â'r broblem hon. Disgwylir i'r ganolfan i ymwelwyr a datblygu cyfleusterau e-fasnach gynnig cyfle i godi incwm ychwanegol. Paratoir strategaeth ar ddenu rhoddion a nawdd, ac eisoes mae nifer o fentrau penodol ar y gweill. Rydym yn ail edrych ar geisio sicrhau grantiau sylweddol (ee o Amcan 1), mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill.

Nid sialens ariannol yn unig mohoni. Mae adnoddau staff yn allweddol wrth inni ddiwallu anghenion sy'n newid: bydd eisiau paratoi a chynorthwyo'r staff presennol i ymgymryd â thasgau newydd a gweithio mewn ffyrdd newydd, a recriwtio mathau newydd o staff i weithio mewn meysydd lle nad oes medrau gennym ar hyn o bryd.

Gwelir gan bob sefydliad gweithgar fod ei uchelgeisiau yn uwch na'r gallu i'w cynnal. Ond ein cred yw bod potensial y Llyfrgell i gyfrannu i ddyfodol Cymru i'r fath raddau fel bod dyletswydd arni ac ar ei noddwyr fel ei gilydd i chwilio am gyfleoedd i ddod o hyd i adnoddau fydd yn ei galluogi i'w wireddu.

Andrew M.W. Green
Llyfrgellydd
10 Chwefror 2003